OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2015 No. 1507

# Rheoliadau Mêl (Cymru) 2015

## RHAN 5

## Gorfodi a darpariaethau amrywiol

### Gorfodi

**18.** Rhaid i bob awdurdod bwyd orfodi a gweithredu'r Rheoliadau hyn yn ei ardal.

### Cymhwyso ac addasu darpariaethau yn y Ddeddf

**19.** Mae darpariaethau'r Ddeddf a bennir yng ngholofn 1 o'r tabl yn Atodlen 2 yn gymwys, gyda'r addasiadau a bennir yng ngholofn 2 o'r tabl hwnnw, at ddibenion y Rheoliadau hyn.

### Dirymu

**20.**—(1) Mae'r canlynol wedi eu dirymu—

(a) Rheoliadau Mêl (Cymru) 2003(**1**);

(b) Rheoliadau Mêl (Cymru) (Diwygio) 2005(**2**); a

(c) Rheoliadau Mêl (Cymru) (Diwygio) 2008(**3**).

(2) Yn Rheoliadau Gwybodaeth am Fwyd (Cymru) 2014(**4**) mae'r darpariaethau a ganlyn wedi eu hepgor—

(a) eitem 13 o'r tabl yn Rhan 1 o Atodlen 6; a

(b) paragraffau 32 i 34 o Atodlen 7.

### Diwygio Rheoliadau Gwybodaeth am Fwyd (Cymru) 2014

**21.** Mae Atodlen 3 (diwygio Rheoliadau Gwybodaeth am Fwyd (Cymru) 2014) yn cael effaith.

### Darpariaeth drosiannol

**22.** Rhaid i swyddog awdurdodedig i awdurdod bwyd beidio â chyflwyno hysbysiad gwella o dan adran 10(1) o'r Ddeddf, fel y'i cymhwysir ac y'i haddasir gan reoliad 19, fel y'i darllenir gydag Atodlen 2—

(a) os byddai'r hysbysiad gwella'n ymwneud â chynnyrch a gafodd ei osod ar y farchnad neu ei labelu cyn 3 Awst 2015; a

(**1**) O.S. 2003/3044, a ddiwygiwyd gan O.S. 2005/3052, 2005/3254, 2008/543, 2014/2303.
(**2**) O.S. 2005/3052.
(**3**) O.S. 2008/543.
(**4**) O.S. 2014/2303.

(b) os na fyddai'r materion a fuasai'n ffurfio'r drosedd honedig wedi bod yn drosedd o dan Reoliadau Mêl (Cymru) 2003 fel yr oeddent yn gymwys yn union cyn 3 Awst 2015.